



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Cynilo Ar Gyfer Eich Ymddeoliad

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Ar y cyd gyda'r Prudential a Chyngor Sir Ddinbych

Addas Ar Gyfer: Staff Llywodraeth Leol ac Athrawon



1. Cyflwyniad – Eich dyfodol, peidiwch gostwng eich disgwyladau.

Ers 2008, mae'r incwm, y disgwylir i bobl sy'n gorffen gweithio fyw arno wedi gostwng, ar gyfartaledd, o 16%.

Mae ymddeoliad yn rhywbeth y mae pobl yn aml yn ei anwybyddu, yn enwedig os yw i'w weld ymhell i ffwrdd. Yn anffodus, gallai hynny ostwng eich safon byw yn ystod eich ymddeoliad.

Mae yna gymaint o gamgymeriadau y gellir eu gwneud wrth gynilo ar gyfer pensiwn - a dim ond drwy drafod y gellir eu hosgoi. Does dim yn fwy rhwystredig na sylweddoli, flynyddoedd wedyn, y dylech fod wedi trafod ynghynt.

Y Prudential sy'n arwain gyda darparu AVC (Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) yn y DU gyda thros 295,000 o gwsmeriaid. Mae wedi helpu gweithwyr y sector cyhoeddus i gynilo ar gyfer ymddeol am dros 20 mlynedd.

2. Staff Llywodraeth Leol

Gall Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Llywodraeth Leol eich helpu chi i gael dyfodol eich disgwyliadau.

Yn newydd ddechrau neu'n dod i ddiwedd eich gyrfa, dyw hi byth yn rhy gynnar nac yn rhy hwyr i feddwl am eich ymddeoliad. I lawer o bobl sy'n cyrraedd oedran ymddeol y wladwriaeth, y gwirionedd yw y bydd yn rhaid iddyn nhw, erbyn hyn, weithio'n hwy nag y bydden nhw'n ei ddymuno.

Dengys ymchwil gan y Prudential fis Ionawr 2011 y bydd yn rhaid i bron i hanner y bobl yn cyrraedd oedran ymddeol ddal i weithio y tu hwnt i hynny i gael rhagor o bensiwn neu i gynilo rhagor.

Beth mae hynny'n ei olygu yw bod llawer o bobl yn ei gadael hi'n rhy hwyr i gael yr ymddeoliad maen nhw ei ddymuno ac, efallai, heb allu ymddeol o gwbl.

Os ydych chi'n meddwl sut y gallech chi beidio â gorfod gohirio eich ymddeoliad, os ydych eisiau llenwi'r bwlch ar ôl ymuno'n hwyr â'ch prif gynllun pensiwn neu eisiau ymddeol ychydig ynghynt, gallai'r ateb fod yn syml.

Mae gennych gyfle i ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) Llywodraeth Leol. Gall y Cynllun AVC eich helpu i adeiladu pot ymddeol arall ar ben eich prif gynllun pensiwn, a fydd yn ffynhonnell ychwanegol o arian pan fyddwch yn ymddeol - arian a allai eich helpu i ymddeol pan fyddwch chi eisiau, nid pan fyddwch chi'n gallu fforddio gwneud hynny.

- ✓ Cyfraniadau treth effeithlon – bydd yr arian a fyddai'n mynd i'r dyn treth fel arfer yn mynd i'ch pot AVC (rhai cyfyngiadau)
- ✓ Gallwch stopio, ail ddechrau, cynyddu neu ostwng eich cyfraniadau. Os byddwch yn gostwng neu'n stopio'r cyfraniadau, gallai hynny effeithio ar eich buddion adeg ymddeol.
- ✓ Gallwch ddewis, o amrywiaeth eang y Prudential o gronfeydd, ym mha gronfa yr hoffech fuddsoddi'ch pot AVC ynddi. Gan y bydd eich cyfraniadau'n cael eu buddsoddi, gallai eu gwerth ostwng yn ogystal â chodi. Mae'n bosibl na fyddwch yn cael eich buddsoddiad yn ôl yn llawn.
- ✓ Gallwch gael hyd at 100% o lwmp swm di-dreth (oni bai fod hynny'n fwy na 25% o'ch holl bensiynau gyda'i gilydd). Gallwch ddefnyddio rhywfaint o'r pot (neu'r cyfan) i roi incwm trethadwy rheolaidd i chi.

Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r rheolau trethi ar hyn o bryd, a gallai'r rhain newid yn y dyfodol. Mae effaith trethiant (ac unrhyw ryddhad o dreth) yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Efallai eich bod yn teimlo fod gennych chi ddigon o amser i gynilo'r arian y byddwch ei angen i ymddeol, nad oes raid i chi boeni am hynny heddiw neu fod digon o amser i chi wneud hynny rywbryd eto. Ond dyw hi ddim mor hawdd talu rhagor dros gyfnod byrrach. Drwy ddechrau nawr, byddwch yn taenu'r gost dros gyfnod hwy, a bydd hynny'n ei gwneud yn haws i gynilo. A chi allai fod ar eich mantais yn y tymor hir.

Hyd yn oed os mai dim ond ychydig o flynyddoedd sydd ar ôl nes eich bod yn ymddeol, gallwch elwa o fwy o ryddhad treth a gallech gymryd canran o'ch cynilion fel lwmp swm o arian parod di-dreth pe byddech yn penderfynu gwneud Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Llywodraeth Leol.

3. Athrawon

Gall Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Athrawon eich helpu chi i gael dyfodol eich disgwyliadau.

Yn newydd ddechrau neu'n dod i ddiwedd eich gyrfa, dyw hi byth yn rhy gynnar nac yn rhy hwyr i feddwl am eich ymddeoliad. I lawer o bobl sy'n cyrraedd oedran ymddeol y wladwriaeth, y gwirionedd yw y bydd yn rhaid iddyn nhw, erbyn hyn, weithio'n hwy nag y bydden nhw'n ei ddymuno.

Dengys ymchwil gan y Prudential fis Ionawr 2011 y bydd yn rhaid i bron i hanner y bobl yn cyrraedd oedran ymddeol ddal i weithio y tu hwnt i hynny i gael rhagor o bensiwn neu i gynilo rhagor.

Beth mae hynny'n ei olygu yw bod llawer o bobl yn ei gadael hi'n rhy hwyr i gael yr ymddeoliad maen nhw ei ddymuno ac, efallai, heb allu ymddeol o gwbl.

Os ydych chi'n meddwl sut y gallech chi beidio â gorfod gohirio eich ymddeoliad, os ydych eisiau llenwi'r bwlch ar ôl ymuno'n hwyr â'ch prif gynllun pensiwn neu eisiau ymddeol ychydig ynghynt, gallai'r ateb fod yn syml.

Mae cyfle i chi ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) Athrawon. Gall y Cynllun AVC eich helpu i adeiladu pot ymddeol arall ar ben eich prif gynllun pensiwn, a fydd yn ffynhonnell ychwanegol o arian pan fyddwch yn ymddeol - arian a allai eich helpu i ymddeol pan fyddwch chi eisiau, nid pan fyddwch chi'n gallu fforddio gwneud hynny.

- ✓ Cyfraniadau treth effeithlon – bydd yr arian a fyddai'n mynd i'r dyn treth fel arfer yn mynd i'ch pot AVC (rhai cyfyngiadau)
- ✓ Gallwch stopio, ail ddechrau, cynyddu neu ostwng eich cyfraniadau. Os byddwch yn gostwng neu'n stopio'r cyfraniadau, gallai hynny effeithio ar eich buddion adeg ymddeol.
- ✓ Gallwch ddewis, o amrywiaeth eang y Prudential o gronfeydd, ym mha gronfa yr hoffech fuddsoddi'ch pot AVC ynddi. Gan y bydd eich cyfraniadau'n cael eu buddsoddi, gallai eu gwerth ostwng yn ogystal â chodi. Mae'n bosibl na fyddwch yn cael eich buddsoddiad yn ôl yn llawn.
- ✓ Gallwch gael hyd at 100% o lwmp swm di-dreth (oni bai fod hynny'n fwy na 25% o'ch holl bensiynau gyda'i gilydd). Gallwch ddefnyddio rhywfaint o'r pot (neu'r cyfan) i roi incwm trethadwy rheolaidd i chi.

Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r rheolau trethi ar hyn o bryd, a gallai'r rhain newid yn y dyfodol. Mae effaith trethiant (ac unrhyw ryddhad o dreth) yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Efallai eich bod yn teimlo fod gennych chi ddigon o amser i gynilo'r arian y byddwch ei angen i ymddeol, nad oes raid i chi boeni am hynny heddiw neu fod digon o amser i chi wneud hynny rywbryd eto. Ond dyw hi ddim mor hawdd talu rhagor dros gyfnod byrrach. Drwy ddechrau nawr, byddwch yn taenu'r gost dros gyfnod hwy, a bydd hynny'n ei gwneud yn haws i gynilo. A chi allai fod ar eich mantais yn y tymor hir.

Hyd yn oed os mai dim ond ychydig o flynyddoedd sydd ar ôl nes eich bod yn ymddeol, gallwch elwa o fwy o ryddhad treth a gallech gymryd canran o'ch cynilion fel lwmp swm o arian parod di-dreth pe byddech yn penderfynu gwneud Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Athrawon.

4. Cysylltiadau defnyddiol:

Prudential

Staff Llywodraeth Leol:

Mae staff cymwynasgar y Prudential ar gael i siarad gyda chi ar **0845 607 0077** o 9am-6pm, Dydd Llun i Dydd Gwener. Neu gallwch ymweld â gwefan ddynodedig Llywodraeth Leol y Prudential ar www.pru.co.uk/localgov

Athrawon:

Mae staff cymwynasgar y Prudential ar gael i siarad gyda chi ar **0845 607 0077** o 9am-6pm, Dydd Llun i Dydd Gwener. Neu gallwch ymweld â gwefan ddynodedig Athrawon y Prudential ar www.pru.co.uk/teachers.

Cysylltu â'r Prudential: **0800 015 4615** neu retirepru@prudential.co.uk

Pensiynau

Pensiynau Clwyd: **01352 702761**

Pensiynau Athrawon: **0845 606 6166**

Cyngor Sir Ddinbych

Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ddinbych: **01824 706200**

Rhestr Gyflog Cyngor Sir Ddinbych: **01824 706028**